OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1448 (Cy. 156)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym* | *27 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Mehefin 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 23:00 o'r gloch ar 27 Mehefin 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 yng Nghaersŵs yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o Groesfan Reilffordd Moat Lane hyd at bwynt 20 metr i'r de o'r groesfan honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Mehefin 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.